Cynllunio	**Blwyddyn 3 – Dosbarth Glyndŵr** **Pwy ydw i?** **Wythnos 1 a 2** Helo blant, Gobeithio bod chi gyd yn iawn ac wedi mwynhau eich amser gyda'ch teuluoedd yn ystod y gwyliau? Mae sawl peth wedi newid ers i mi weld chi ddiwethaf yn yr ysgol. Mae bellach yn flwyddyn newydd, 2021, ac am nawr byddwch yn cwblhau eich gwaith ar HWB, o'ch cartrefi bach chi. Felly dyma'r gwaith sydd angen i chi gwblhau yn ystod y bythefnos ysgol nesaf. Mae'r ysgrifen goch yn golygu byddaf yn esbonio'r tasgau yma i chi ar 'Teams.' Dyma fy ebost – steffan.thomas@llangunnor.ysgolccc.cymru
Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu Cymraeg	**1) Fel unrhyw fore Llun yn yr ysgol, rydych yn ysgrifennu eich dyddiadau newyddion am yr hyn rydych wedi gwneud dros y penwythnos, hoffwn i chi barhau gwneud hyn ar foreau Dydd Llun wrth i chi ddysgu o bell. Gwnewch hwn ar J2Write os gwelwch yn dda. Cofiwch ddefnyddio'r patrymau iaith rydym wedi bod yn defnyddio ers dechrau yn Nosbarth Glyndŵr. Cofiwch gan rydych wedi gwneud yr hyn rydych yn ysgrifennu, dylai eich berfau orffen gyda 'ais.' Cofiwch ddechrau gyda, 'Dros y penwythnos bues i...' (Gwnewch hyn peth cyntaf ar fore Dydd Llun).** *Continue to write your Monday morning diary with your weekend news. You can do this on J2Write. Remember to use the language patterns that we have been using regularly in Dosbarth Glyndŵr when writing your news. Remember, when writing your diary that verbs end with 'ais' because you have done the activity. Remember to start with 'Dros y penwythnos bues i....' (To be completed on Monday morning).* **2) Ysgrifennwch lythyr at Siôn Corn neu at eich rhieni yn diolch iddynt am un anrheg roeddech wedi derbyn ar ddiwrnod Nadolig, neu yn ystod y gwyliau. Fedrwch wneud hyn ar HWB gan ddewis y ffeil 'llythyr o ddiolch' a lliw eich grŵp iaith chi. Cofiwch, wrth wneud hyn i ddweud beth oedd un o'r anrhegion roeddech wedi derbyn a pham rydych chi'n ysgrifennu'r llythyr. Yna, ewch ymlaen at y paragraff nesaf gan roi rhesymau dros pan rydych yn ddiolchgar am yr anrheg. Cofiwch hefyd i gynnwys paragraff clo yn diolch iddynt am ddarllen eich llythyr. (Byddaf yn canolbwyntio ar y dasg yma gyda chi ar Ddydd Iau'r 7fed).** *Write a letter to Father Christmas or to your parents, thanking them for one gift that you received on Christmas day or during the school holiday. This letter needs to be completed on J2Write. Select 'Llythyr o ddiolch' and your 'iaith' group. Remember to include why you are writing and to say which present you received. Then begin another paragraph explaining why you are thankful for this present. Remember to include a closing paragraph thanking them / him for reading your letter. (I will further explain this task on Thursday the 7th).*

	3) Creu pasbort 'Amdanaf i.' Rydw i wedi rhannu dogfen 'Pasbort amdanaf i' gyda chi ar HWB. Gan mai 'Pwy ydw i?' ydy ein thema ar gyfer y tymor, dyma dasg sydd angen i chi gwblhau er mwyn i bawb ddod i adnabod ein gilydd yn well. *I have shared an 'Amdanaf i' passport link on HWB for you to complete. This term's theme is 'Pwy ydw i?' (Who am I?), and this passport will ensure that we all know a little more about each other as we continue to change and further develop.* **4) Darllen stori 'Santes Dwynwen', a chreu bwrdd stori yn dilyn hyn. Dw i wedi rhannu'r ffeiliau yma gyda chi. (Byddwn yn edrych ar y dasg yma ar Ddydd Mercher. Peidiwch â chwblhau'r dasg cyn hynny).** *Read the 'Santes Dwynwen' story and complete a story board focusing on these events. The links have been shared with you. (This task will be further explained during the Teams session on Wednesday).*
Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu English	1) *In class we follow the Read, Write, Ink, Phonics Scheme. Here's a Youtube link for you to follow the daily session that are available for a period of 24 hours.* Ruth Miskin Training - YouTube 2) Create a PowerPoint with the title 'All about me.' A PowerPoint has been shared with you on HWB. You can edit this PowerPoint on your own account and add information to each slide. 3) Complete the comprehension task focusing on the story of the old new year tradition 'Yr Hen Galan.' This task will be explained during our live lesson. (Do not complete this task until Monday 11th).
Mathemateg a Rhifedd	**1) Defnyddio thermomedrau a darllen rhifau'r raddfa yn gywir. Cwblhewch y daflen tymheredd ar HWB gan gyfarwyddo gyda mesur y tymheredd. Cofiwch pan mae rhif yn llai na '0 gradd celsius', mae'r rhifau, yn rhifau negyddol gan eu bod o dan y rhew bwynt.** *Practise measuring the temperature using a thermometer. A file has been shared with you on HWB, 'Gwaith tymheredd.' Remember that when a number is below 0 degrees Celsius it is a minus number as it is below the freezing point.* **2) Defnyddiwch eich gwybodaeth o werth lle i gymharu a threfnu amryw o rifau yn gywir. Mae'r dasg ar HWB, a theitl y dasg yw 'Gwerth lle.'** *Use your understanding of place value to order and compare numbers correctly. The title of this task is 'Gwerth lle.'* **3) Ewch ati i restri rhifau sy'n fwy na, a llai na rhifau a rhoddir. Teitl y dasg yw 'Yn fwy ac yn llai.'** *Complete the 'Yn fwy ac yn llai' task which requires you to list numbers that are less than or more than given numbers.* 4) **Ewch ati i dalgrynnu rhifau dau ddigid i'r 10 agosaf. Cofiwch pe bai rhif yn gorffen gyda '5' neu fwy rydych yn talgrynnu'r rhif i'r 10 nesaf. 'Talgrynnu' yw teitl y dasg ar** HWB. *Complete the 'talgrynnu' task which requires you to round off a range of numbers to the nearest 10. Remember that when a number ends with a digit that's 5 or more, we round it off to the next 10.*

Gwyddoniaeth a Thechnoleg	**Ein thema ar gyfer Gwyddoniaeth yn ystod y tymor fydd 'Grymoedd.' Dyma ddau dasg i chi ddod yn gyfarwydd gyda geirfa pwnc y thema.** *Our Science theme this term is 'Forces.' Here's two tasks for you to familiarise yourselves with the terminology.* **1) Ymchwiliwch i ystyr yr eirfa pwnc grymoedd, gan ddefnyddio geiriadur neu'r we os nad oes gennych geiriadur i nodi ystyr y gair. Mae'r geiriau wedi rhannu gyda chi, a theitl y ffeil ydy 'Geirfa Grymoedd.' Gwnewch dabl eich hun yn nodi'r gair ac yna'r ystyr. Pe bai ydych eisiau wneud y dasg ar bapur cofiwch uwchlwytho eich gwaith.** *A 'Geirfa Grymoedd' file has been shared with you on HWB. Use a dictionary to note the meaning of these key words or research the meaning of the words using the internet. Create your own, neat, table to note each word and meaning. This may be done on paper or on HWB.* **2) I barhau gyda datblygu eich defnydd o'r eirfa pwnc, cwblhewch y 'Chwilair grymoedd' sydd wedi'i rhannu gyda chi ar HWB.** *Complete the 'Chwilair grymoedd' wordsearch to further develop your awareness of key terminology.* **3) **Datblygwch eich sgiliau mewngofnodi i'ch cyfrif Hwb. Cofiwch ymarfer y sgil yma'n ddyddiol.** *** Practise logging into your HWB account independently. Practise this skill daily.*
Iechyd a Lles	**1) Dilynwch heriau Joe Wicks am 9 o'r gloch pob bore Llun, Mercher a Gwener, gan ddilyn y linc isod;** **https://www.youtube.com/user/thebodycoach1** *Follow Joe Wicks' challenges at 9am on Monday, Wednesday and Friday. Here's the link;* *https://www.youtube.com/user/thebodycoach1* **2) Cofiwch nodi eich teimladau yn ddyddiol ar eich cyfrif 'Speakr.' Dyma'r linc;** **https://6692173.speakr.co.uk/sign_in** *Remember that you can note your daily feelings using 'Speakr.' Here's the link;* *https://6692173.speakr.co.uk/sign_in*
Celfyddydau Mynegiannol	**1) Yn dilyn eich gwers 'Literacy' am yr Hen Galan, os oes gennych yr adnoddau, ewch ati i greu 'Perllan' eich hun, ac uwchlwythwch lun o'r Perllan. Os nad oes gennych yr adnoddau gwnewch lun o Perllan ar bapur.** *Following our 'Literacy' lesson focusing on 'Yr Hen Galan' Create a Perllan at home. If you do not have the resources, draw and colour a 'Perllan' and remember to upload it to HWB.* **2) Dysgwch a chofiwch y geiriau ar gyfer y gân Calennig. Dw i wedi rhannu'r geiriau gyda chi ar HWB.** *Attempt to learn and remember the words of the 'Calennig' song. The words are on Hwb.* **3) Ewch ati i greu ac addurno cerdyn Santes Dwynwen. Mae yna gystadleuaeth Menter Gorllewin Sir Gâr a hoffwn i bob un ohonoch greu cerdyn i ddathlu'r digwyddiad. Bydd angen addurno eich cerdyn i fod yn unigryw a bydd angen i'ch cerdyn gynnwys y geiriau 'Santes Dwynwen' yn glir ar bapur maint A4, neu faint A4 digidol. Bydd angen i chi wneud y rhain erbyn Dydd Mercher 13eg o Ionawr er mwyn iddynt fedru cael eu danfon i'r Fenter. Os rydych yn gwneud eich cerdyn ar bapur cofiwch sganio eich Cerdyn Santes Dwynwen i HWB.**

	Create and design a 'Santes Dwynwen' card. There is a Menter Gorllewin Sir Gâr competition, to create an A4 sized Santes Dwynwen Card, and the cards that you make will be entered. It can be made electronically or on paper but must include the words 'Santes Dwynwen.' The card must be completed by Wednesday the 13th of January to ensure that the Menter can receive your cards on time. Please 'scan' your card to HWB if it is completed on paper.
Dyniaethau	**1) Ewch ati i greu clawr thema 'Pwy ydw i?' a chreu cynllun corryn i gyd fynd gyda hyn. Fedrwch wneud y clawr ar bapur os dymunwch a gwnewch yn siwr mae'n cynnwys y teitl 'Pwy ydw i?' yn glir, a chofiwch gynnwys lluniau ohonoch chi a'r hyn sy'n bwysig yn eich bywydau. Yna, ewch ati i gwblhau'r cynllun thema 'Pwy ydw i?' sydd wedi rhannu gyda chi ar HWB.** *Create a 'Pwy ydw i?' (Who am I?) theme cover as this is our theme for this term. You can create your cover on paper and upload it to HWB. It must include our theme title 'Pwy ydw i?' and pictures of you and what you regard as important. You will also need to complete a 'spider diagram' as we begin the theme, and this can be seen on HWB 'Cynllun thema pwy ydw i?'* **2) Ysgrifennwch am un daith rydych wedi ar sydd yn bwysig i chi a sy'n aros yn eich cof. O bosib fedwch gynnwys lluniau o'r daith yma hefyd. Gwnewch hyn ar J2Write. Cofiwch nodi ble buoch chi, gyda phwy, pryd a'r hyn wnaethoch. Yna, cofiwch ddweud pam mae'r daith yma mor bwysig i chi.** *Write about one very important trip or visit that you've been on, that you would like to share with others. This can be done on J2Write. Remember to include where you went, when, who you went with, why you went and picture of the visit. Remember to say why you regard this trip/visit important.*